**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion o gyfarfod ar-lein y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ddydd Mawrth 6 Gorffennaf 2021 am 5.00pm.

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol - Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd A Fox (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D. Williams | Y Cynghorydd S. Bradwick |
| Y Cynghorydd S Powderhill | Y Cynghorydd T. Williams |
| Y Cynghorydd S. Morgans | Y Cynghorydd P. Howe |
| Y Cynghorydd L. Jones | Y Cynghorydd G. Holmes |

**Swyddogion oedd yn bresennol:-**

MS L Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a'r Gymuned
Mr P Nicholls, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms R. Hope, Pennaeth Dros Dro – Diogelu'r Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio
Mr M Owen, Rheolwr Trwyddedu Cynorthwyol
Mr N Evans, Swyddog Gorfodi Materion Trwyddedu
Swyddog yr Heddlu J Roberts - Heddlu De Cymru

**Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol oedd yn bresennol:-**

Y Cynghorydd W. Lewis

**35 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Cox a L. Jones

**36 Datganiad o Fuddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

**36** Cyhoeddodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans fuddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6, Atodiad 2, ar yr agenda: 'Rydw i'n adnabod cyflogwr yr ymgeisydd a ni fyddaf yn pleidleisio ar yr eitem hon', a hefyd buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6, Atodiad 3, ar yr agenda: 'Rydw i'n adnabod cyflogwr yr ymgeisydd a ni fyddaf yn pleidleisio ar yr eitem hon', a

**37** Cyhoeddodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P. Howe fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6, Atodiad 2, ar yr agenda: 'Rydw i'n adnabod cyflogwr yr ymgeisydd'.

**37 Deddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn**

**PENDERFYNWYD** nodi pan fydd Aelodau'n ystyried y materion trwyddedu a chofrestru sydd ger eu bron, mae dyletswydd arnyn nhw i

beidio â gweithredu mewn modd sy'n anghydnaws â'r confensiwn ar Hawliau Dynol a'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn.

**38 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mai 2021 yn rhai cywir.

**39 Ystyried Trwyddedau a Chofrestriadau a gyhoeddwyd o dan ddarpariaeth pwerau dirprwyedig ar gyfer y cyfnod: 19.04.21 - 20.06.21**

Yn ei adroddiad, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion i'r Aelodau am drwyddedau a chofrestriadau a gafodd eu rhoi yn ystod y cyfnod 19 Ebrill 2021 tan 20 Mehefin 2021.

**PENDERFYNWYD** nodi'r diweddariad.

**40 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**41 Trafod y ceisiadau canlynol ar gyfer Trwyddedu a/neu Gofrestru:**

**1** Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr MS o Aberdâr ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod cais.

**2** Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr LC o ardal Llwynypïa ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger eu bron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor wrthod y cais.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 6, Atodiad 2, yn gynharach yn y cyfarfod, ni phleidleisiodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans ar yr eitem, roedd hi'n dymuno nodi ei phenderfyniad, pe byddai hi wedi pleidleisio, sef ei bod hi'n dymuno gwrthod y cais).

**3** Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned fanylion y cais canlynol am Drwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Yn unol â'r gweithdrefnau wedi eu mabwysiadu, cafodd Mr DE o ardal Porth ei groesawu gan yr Aelodau – roedd ei gais ger bron y Pwyllgor am gael Trwydded Yrru Cerbyd Hacni/Cerbyd Hurio Preifat.

Ar ôl trafod yr adroddiad a'r dystiolaeth ger ei fron, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn amodol ar y telerau ac amodau safonol arferol.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant personol mewn perthynas ag Eitem 6, Atodiad 3, yn gynharach yn y cyfarfod, ni phleidleisiodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Morgans ar yr eitem).

## 42 Crynodeb Gorfodi (gan gynnwys data apeliadau/erlyniadau) ar gyfer y cyfnod 23.04.21 - 25.06.21

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad yn amlinellu'r gwaith gorfodi diweddaraf, gan gynnwys y diweddaraf am apeliadau ac erlyniadau ar gyfer y cyfnod 23 Ebrill 2021 tan 25 Mehefin 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

## 43 CRYNODEB O'R TRWYDDEDAU A GYHOEDDWYD O DAN DDARPARIAETH AWDURDOD DIRPRWYEDIG AR GYFER Y CYFNOD 19.04.21 - 20.06.21

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yr adroddiad i'r Aelodau'n amlinellu'r Trwyddedau a/neu Gofrestriadau a gafodd eu rhoi o dan ddarpariaeth Awdurdod Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 19 Ebrill 2021 i 20 Mehefin 2021.

**PENDERFYNODD** y Pwyllgor nodi'r diweddariad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.04pm**

**Y CYNGHORYDD A FOX**
**CADEIRYDD.**